**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**20 CHWEFROR 2024**

Cofnodion cyfarfod hybrid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 20 Chwefror 2024.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Gladys Healey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Helen Brown, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, David Coggins Cogan, Geoff Collett, Steve Copple, Bill Crease, Paul Cunningham, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Chrissy Gee, David Healey, Ian Hodge, Andy Hughes, Dave Hughes, Dennis Hutchinson, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Simon Jones, Richard Lloyd, Dave Mackie, Gina Maddison, Roz Mansell, Allan Marshall, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Billy Mullin, Debbie Owen, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, David Richardson, Ian Roberts, Dan Rose, Kevin Rush, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thew, Linda Thomas, Ant Turton, Roy Wakelam, Arnold Woolley ac Antony Wren.

**YMDDIHEURIADAU:** Bernie Attridge a Ray Hughes.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, y Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol), y Rheolwr Corfforaethol (Rhaglen Gyfalaf ac Asedau), y Rheolwr Cyllid a Chaffael, Rheolwyr Cyllid Strategol, Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio, Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd, y Rheolwr Darparu Gwasanaeth, y tîm Gwasanaethau Democrataidd a'r Tad Paul Wheeler ar gyfer y weddi.

## 76. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Roedd un cwestiwn cyhoeddus wedi ei dderbyn gan Matt Brown nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Cafodd y cwestiwn a'r ymateb ei ddosbarthu fel a ganlyn:

Cwestiwn
*"A all y Weinyddiaeth egluro pam y penderfynwyd cau'r holl ysgolion ddydd Iau, 8 Chwefror pan adawodd pob Awdurdod Lleol cyfagos arall, gyda'r un rhybudd tywydd Oren gan gynnwys Wrecsam, Conwy, Sir Ddinbych, Gorllewin Sir Caer a Sir Amwythig, y penderfyniad i gau ysgol gyda'r Pennaeth a Chorff Llywodraethu'r ysgol honno?"*

Ymateb
*"Dydd Mawrth 6 Chwefror, cyhoeddwyd rhybudd tywydd Melyn am eira a rhew yn Sir y Fflint, a ddechreuodd am 06:00 ddydd Iau 8 Chwefror ac a barhaodd tan 06:00 ddydd Gwener 9 Chwefror. Ar y pwynt hwnnw cynghorwyd*

*ysgolion y byddai disgwyl iddynt wneud eu penderfyniad eu hunain yn ymwneud â chau unrhyw ysgol wedi ei seilio ar amodau lleol, yn unol â'r canllawiau tywydd garw.*

*Fodd bynnag, pan uwchraddiwyd y rhybudd tywydd i Oren ddydd Mercher 7 Chwefror, gan amlinellu mwy o amodau eira difrifol yn Sir y Fflint o 08.00 i 15.00 ddydd Iau, fe sbardunodd hyn gyfarfod Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng y Cyngor. Diben y cyfarfod oedd: i ystyried y risg i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor am y 24 awr canlynol yng ngoleuni'r rhybuddion tywydd melyn ac oren yn ymwneud ag eira a rhew.*

- *i gytuno ar unrhyw newidiadau oedd eu hangen i gynnal parhad gwasanaeth hanfodol ac*
- *i sicrhau fod* yna *drefniadau effeithiol mewn grym i ddiogelu'r cyhoedd, yn arbennig y rhai hynny sy'n ddiamddiffyn.*

*Mae rhybudd Oren yn golygu y* ***cynghorir mai dim ond os yw hynny'n hanfodol y dylid teithio a dim ond os yw'n ddiogel i wneud hynny****. Fe seiliodd Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng y Cyngor y penderfyniad i gau ysgolion ar yr effeithiau a ragwelwyd o dan y rhybudd tywydd Oren a oedd yn cynnwys;*

- *siawns dda y gallai rhai cymunedau gwledig gael eu hynysu dros dro*
- *oedi i deithwyr ar ffyrdd yn debygol, gan adael rhai cerbydau a theithwyr heb allu symud*
- *mae toriadau pŵer yn bosibl a gall gwasanaethau eraill gael eu heffeithio, fel signal ffonau symudol*
- *mae ychydig o oedi yn debygol i rai sy'n teithio ar y rheilffyrdd, gyda rhai teithiau'n debygol o gael eu canslo*

*Roedd yna risg y byddai yna darfu sylweddol ar rwydwaith cludiant yr ysgol, a fyddai'n golygu na fyddai disgyblion yn gallu teithio'n ddiogel i ac o'r ysgol, yn arbennig gan fod disgwyl i'r rhybudd Oren ddod i rym am 8am pan fo rhwydweithiau'r ffyrdd ar eu prysuraf.*

*Roedd yna risg yn benodol i blant gydag anghenion cymhleth sy'n mynychu ysgolion Arbenigol y Sir, gyda nifer ohonynt angen hebryngwyr ac y gallai eu hiechyd a'u lles gael ei effeithio pe baent yn sownd mewn bysiau mini mewn tywydd garw.*

*Hefyd roedd yna risg gan fod Yr Wyddgrug yn ardal darged, yr oedd disgwyl iddi gael ei heffeithio'n andwyol gan eira trwm, y gallai hyn effeithio ar ddarparu'r gwasanaethau prydau ysgol i'r ysgolion hynny ar hyd a lled y sir y mae eu prydau'n cael eu cynhyrchu a'u darparu o Gegin Gynhyrchu Ganolog NEWydd sy'n gweithredu o Neuadd y Sir.*

*Her arall i ysgolion mewn tywydd garw yw fod nifer o staff yn teithio cryn bellter i'w gwaith, o fewn a thu hwnt i ffiniau'r sir. Fe allai'r gostyngiad posibl yn y nifer o staff sy'n bresennol yn eu hysgol mewn cyfnod o dywydd garw a'r amodau teithio fod wedi ei gwneud yn anniogel i ysgolion weithredu.*

*O ganlyniad i amseru'r Rhybudd Oren, fe gymrwyd ymateb rhagweithiol yn hytrach na chaniatáu i sefyllfa ddatblygu a fyddai, yn seiliedig ar y wybodaeth, fwy na thebyg wedi arwain at blant wedi eu gadael mewn arosfannau bysiau neu*

*wedi eu gadael mewn cerbydau. Ers y pandemig, mae ysgolion wedi datblygu platfformau TG yn dda i ddarparu dysgu ar-lein. Penderfynwyd ei bod yn fwy synhwyrol i roi amser i rieni i wneud trefniadau eraill o ran gofal plant os oedd angen ac amser i athrawon i gynllunio ar gyfer dysgu ar-lein drwy wneud y penderfyniad i argymell cau'r ysgol yng ngoleuni rhagolygon manwl y tywydd yn hytrach na'i adael tan y bore Iau a wynebu sefyllfa ddi-drefn.*

*Tra rydym yn deall y gallai rhai rhieni a gofalwyr fod wedi teimlo'n rhwystredig o ganlyniad i'r penderfyniad i gau'r ysgolion, roedd eraill yn croesawu'r ymagwedd ragweithiol; a gymrwyd gan y Cyngor gan ei fod yn rhoi digon o amser iddynt i gynllunio trefniadau gofal plant addas ac roeddent yn croesawu'r ffaith fod y Cyngor yn ystyried diogelwch eu plant. Mae penaethiaid ar hyd a lled Sir y Fflint wedi bod yn unfrydol yn eu cefnogaeth i benderfyniad y Cyngor gan nad oes yna sefyllfa anoddach i Bennaeth na disgwyl eira sylweddol a phendroni p'un ai a fyddant yn gallu agor eu hysgol yn ddiogel ai peidio neu hyd yn oed yn fwy heriol na hynny, agor yn y bore ac yna gorfod cau yn ystod y dydd a sicrhau fod y plant yn mynd adref yn ddiogel.*

*Byddai pob Awdurdod Lleol wedi ymgymryd â'i asesiad risg ei hun ac nid ydym mewn sefyllfa i wneud sylw ar beth oedd y rhesymau y tu ôl i'r penderfyniadau a wnaed mewn awdurdodau eraill.*

*Er nad oedd yr eira ar y diwrnod mor sylweddol mewn rhai rhannau o'r sir ag a ragwelwyd gan y rhagolygon, fe wnaed y penderfyniad i gau ysgolion er y budd gorau i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu gyda'r wybodaeth oedd gennym ni ar y pryd."*

## 77. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr Aelodau canlynol gysylltiad personol â'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024/25 (eitem 11 ar y rhaglen) gan fod ganddynt gysylltiad agos â phobl sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor: Y Cynghorwyr Chris Bithell, Gillian Brockley, Mel Buckley, David Coggins Cogan, Adele Davies-Cooke, Dennis Hutchinson, Christine Jones, Simon Jones, Roz Mansell, Hilary McGuill, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, Kevin Rush, Dale Selvester a Linda Thomas.

Ar Gyllideb Cronfa'r Cyngor 2024/25 (eitem 7 ar y rhaglen), fe ddatganodd y Cynghorydd Hilary McGuill gysylltiad personol a sy'n rhagfarnu fel Aelod o Fwrdd Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru. Fe ddatganodd y Cynghorwyr Glyn Banks a Ted Palmer gysylltiad personol ar yr un eitem.

## 78. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Sean Bibby a Teresa Carberry.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

**79. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cafodd Cyhoeddiadau'r Cadeirydd yn ymwneud â digwyddiadau a fynychwyd ers y cyfarfod blaenorol eu dosbarthu cyn y cyfarfod.

**80. DEISEBAU**

Dim.

**81. CYLLIDEB REFENIW CRONFA'R CYNGOR 2024/25 – Y CAM CLO TERFYNOL**

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol gyflwyniad manwl yn seiliedig ar yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet yn gynharach yn y dydd, a oedd yn ymdrin â'r canlynol:

- Gosod cyllideb gytbwys a chyfreithlon
- Y daith hyd yma...
- Newidiadau pellach i'r gofyniad cyllidebol ychwanegol ar gyfer 2024/25
- Gofyniad Cyllidebol Ychwanegol 2024/25
- Datrysiadau Cyllidebol
    - Cyllid Allanol Cyfun
    - Gostyngiadau i Gostau Portffolios
    - Gostyngiadau i Gostau Ysgolion
    - Gostyngiadau Cost Eraill
    - Treth y Cyngor
    - Datrysiadau a Gynigiwyd yn Derfynol
    - Dewis Arall o ran y Gyllideb (a gyflwynwyd gan y Grŵp Annibynnol)
- Treth y Cyngor 2024/25
- Cyllidebau Ysgolion a Gofal Cymdeithasol
- Risgiau Agored yn 2024/25
- Cronfeydd Wrth Gefn
- Barn Broffesiynol a Sylwadau i Gloi
- Edrych i'r Dyfodol
- Y Camau Nesaf ac Amserlenni

Roedd y cyflwyniad yn nodi newidiadau ers y sefyllfa a adroddwyd fis Ionawr a oedd wedi ystyried effaith ariannol Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol Cymru. Wedi dwy sesiwn friffio i'r Aelodau ac wedi i'r pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried cynigion lleihau costau ychwanegol, roedd gwaith wedi parhau i adolygu'r sefyllfa gyffredinol ynghyd â chyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar gyllid canlyniadol a ddisgwyliwyd gan Lywodraeth y DU. Cafwyd manylion ynglŷn â chanlyniad y gwaith hwnnw yn yr adroddiad i'r Cabinet gyda datrysiadau arfaethedig terfynol i amlinellu sut y gallai'r Cyngor gyflawni cyllideb gyfreithlon a chytbwys ar gyfer 2024/25. Roedd y gyllideb arfaethedig yn cynnwys cynnydd blynyddol cyffredinol o 8% ar Dreth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor ac 1.1% ar gyfer cyfraniadau ychwanegol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Crwneriaid Rhanbarthol. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd cyffredinol o 9.1% a roddai arenillion net ychwanegol

cyffredinol o £9.072 miliwn yn 2024/25. Cafodd dadansoddiad o'r cynnig hwn a dewis a gyflwynwyd gan y Grŵp Annibynnol - a oedd yn gofyn am ddefnyddio'r Cyllid Allanol Cyfun ychwanegol gan Lywodraeth Cymru gyda chynnydd cyffredinol yn Nhreth y Cyngor o 9.0% - ei egluro yn y cyflwyniad.

Amlygwyd nifer o risgiau agored sylweddol ar gyfer 2024/25 ynghyd â diweddariad ar gronfeydd wrth gefn gan gynnwys atgoffa ynglŷn â phwysigrwydd meithrin a chynnal cronfeydd wrth gefn i ddiogelu yn erbyn risgiau agored ac ar gyfer y tymor canolig yng ngoleuni'r setliadau llai a ragwelir ar gyfer 2025/26 a 2026/27.

Daeth y Prif Weithredwr â'r cyflwyniad i ben drwy adlewyrchu ar y risgiau cynyddol a'r heriau sy'n codi o'r setliad gwael gan Lywodraeth Cymru a'r angen am reolaeth ariannol gynyddol yn 2024/25 i ymateb i'r setliadau ariannol llai a ragwelir ar gyfer y dyfodol, gyda mwy o bwyslais ar drawsnewid gwasanaethau a lleihau cost.

Fel Arweinydd y Cyngor, diolchodd y Cynghorydd Ian Roberts i bawb am eu mewnbwn ar y sefyllfa heriol o ran y gyllideb ac adleisiodd bryderon swyddogion am sefyllfa ariannol llywodraeth leol yn y dyfodol. Yn dilyn cyfarfod y Cabinet a'r trafodaethau gyda'r Grŵp Annibynnol yn gynharach yn ystod y dydd, fe gynigiodd y gyllideb amgen a nodwyd ym mharagraff 1.25 yr adroddiad a oedd yn cynnwys cynnydd cyffredinol blynyddol o 9.0% yn Nhreth y Cyngor.

Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Richard Jones a ddiolchodd i swyddogion, yn arbennig y rhai hynny yn y tîm Cyllid, am weithio gyda'r Grŵp Annibynnol ar y gyllideb amgen. Aeth ati i gydnabod y weinyddiaeth am gefnogi'r cynnig a chyfeiriodd at effaith y fformiwla gyllido a oedd angen ei hadolygu ar frys gan Lywodraeth Cymru.

Cydnabu'r Cynghorydd Paul Johnson y penderfyniadau anodd sydd eu hangen i osod cyllideb gyfreithlon a chytbwys. Siaradodd am effaith pwysau chwyddiannol, cynnydd yn y galw am wasanaethau a setliadau gwael a phwysigrwydd cryfhau cronfeydd wrth gefn i ddiogelu yn erbyn risgiau.

Cydnabuwyd ymdrechion y ddau grŵp gwleidyddol i ddod i gytundeb ar sefyllfa heriol o'r fath gan y Cynghorydd David Healey a alwodd am i'r holl Aelodau gydweithio.

Wrth ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd David Coggins Cogan, eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod y cynnydd dros dro yn y Cyllid Allanol Cyfun wedi bod yn is nag a ragwelwyd o ganlyniad i setiau data diwygiedig hwyr cyn cyfrif y fformiwla. Hefyd rhoddodd wybodaeth ar y disgwyliadau ar gyfer dyraniad y Cyngor o'r cyllid canlyniadol gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi ei gynnwys yn yr amcangyfrifiad ar gyllid, gan gynghori y byddai unrhyw newid yn cael ei gynnal gan gronfeydd wrth gefn.

Fe gyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at y ffaith fod y Cyngor eto ymhlith yr awdurdodau a gaiff eu cyllido leiaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru gan arwain at osod y baich ariannol ar breswylwyr. Talodd deyrnged i'r Cynghorwyr Richard Jones ac Ian Roberts am gytuno ar yr hyn a ddisgrifiodd fel cyllideb gydweithredol.

Fe wnaed sylwadau gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst ynglŷn â'r diffyg arweinyddiaeth o ran y gyllideb a'r oedi o ran newid trawsffurfiol gan y weinyddiaeth. Fe aeth ymlaen i siarad o blaid diogelu ysgolion bach gwledig.

Siaradodd y Cynghorydd Carol Ellis am effaith y setliad isel gan Lywodraeth Cymru ar y Cyngor a phreswylwyr. Hefyd mynegodd siom tuag at bresenoldeb gwael Aelodau'r Senedd mewn cyfarfod a oedd wedi ei gynnal yn ddiweddar.

Siaradodd y Cynghorydd Bill Crease am yr anawsterau cynyddol i'r Cyngor o ganlyniad i'r setliad is na'r cyfartaledd gan Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell at y lleihad mewn cyllid o'r Grant Cynnal Refeniw dros y blynyddoedd ac annhegwch y fformiwla gyllido nad oedd yn gynaliadwy.

Mynegodd y Cynghorydd Sam Swash siom na ymgymrwyd â rhai o'i awgrymiadau a godwyd yn ystod y broses. Cwestiynodd pam na aed i'r afael â nifer o achosion o danwario adrannol fel rhan o'r datrysiadau cyllidebol a siaradodd yn erbyn camau penodol yr oedd yn teimlo nad oeddent er budd i gymunedau na thrigolion Sir y Fflint.

Fe wnaeth y Cynghorydd Glyn Banks sylw hefyd ar annhegwch y fformiwla gyllido a'r effaith anochel ar Dreth y Cyngor.

Wrth arfer ei hawl i ymateb, aeth y Cynghorydd Roberts ati i gydnabod yr effaith ar ysgolion a phreswylwyr a rhoddodd sicrwydd fod heriau cadarn wedi eu gwneud ar lefel weinidogol ar y sefyllfa ariannol.

Gofynnodd y Cynghorydd Andy Hughes am bleidlais wedi'i chofnodi ond ni chefnogwyd hyn gan y nifer ofynnol o Aelodau.

Cyflwynwyd argymhellion y Cabinet, a oedd eisoes wedi eu cynnig a'u heilio, fel a ganlyn i bleidlais ac fe'u cefnogwyd yn seiliedig ar ddewis amgen y gyllideb fel nodir ym mharagraff 1.25:

1. Bod y Cabinet yn nodi ac yn cymeradwyo'r gofyniad cyllidebol ychwanegol diwygiedig ar gyfer 2024/25;

2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynigion terfynol ar gyfer y gostyngiadau yn y costau a fydd yn cyfrannu at y gyllideb;

3. Bod y Cabinet yn argymell cyllideb gyfreithiol a chytbwys i'r Cyngor yn seiliedig ar y cyfrifiadau a'r ddau ddewis sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad;

4. Bod y Cabinet yn nodi'r risgiau agored sylweddol sy'n parhau i gael eu rheoli ym mlwyddyn ariannol 2024/25;

5. Bod y Cabinet yn argymell cynnydd blynyddol cyffredinol yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2024/25 wedi ei seilio ar y ddau ddewis a ddarperir;

6. Bod y Cabinet yn gwahodd y Cyngor i gymeradwyo'r cynnig ffurfiol ar Dreth y Cyngor gan ein bod ni bellach wedi cael gwybod am braeseptau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a phob Cyngor Tref a Chymuned yn Sir y Fflint; a

7. Bod y Cabinet yn nodi'r rhagolygon tymor canolig fel sail ar gyfer yr adolygiad nesaf o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Gofynnodd y Cynghorydd Adele Davies-Cooke am i'w phleidlais yn erbyn gael ei chofnodi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Fod argymhellion y Cabinet ar gyfer cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2024/25 yn cael eu cymeradwyo, yn seiliedig ar y dewis amgen a nodir ym mharagraff 1.25 yr adroddiad; a

(b) Bod lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25 fel yr argymhellir gan y Cabinet yn cael ei gymeradwyo, yn seiliedig ar y dewis amgen ar gyfer cynnydd blynyddol cyffredinol o 9.0%.

**82. GOSOD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2024/25**

Cafwyd adroddiad i bennu taliadau Treth y Cyngor a phenderfyniadau statudol cysylltiedig yn ffurfiol ar gyfer 2024/25 fel rhan o strategaeth ehangach y gyllideb ar sail y penderfyniad a wnaed ar yr eitem flaenorol. Roedd lefel gyffredinol Treth y Cyngor yn cynnwys tri phraesept ar wahân a osodwyd gan (i) y Cyngor Sir, (ii) Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r (iii) holl Gynghorau Tref/Cymuned a oedd yn llunio cyfanswm y tâl a godwyd yn erbyn pob eiddo. Roedd yr adroddiad yn nodi'r praeseptiau i'w codi gan y Cyngor yn seiliedig ar gynnydd o un ai 9.0% neu 9.1% fel y nodir yn yr adroddiad blaenorol.

Cafodd yr argymhellion, yn seiliedig ar y dewis am gynnydd o 9.0%, eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Richard Jones a Helen Brown.

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod diwygiad a gynigiwyd wedi hynny gan y Cynghorydd David Coggins Cogan ar newid y premiwm ar gyfer tai gwag hirdymor yn annilys o ganlyniad i'r penderfyniad a wnaed ar yr eitem flaenorol yn y rhaglen. Cynghorwyd ymhellach gan y Rheolwr Refeniw a Chaffael y byddai penderfyniad o'r fath ar y cam hwn yn codi nifer o risgiau sylweddol i'r Cyngor ac y byddai angen cyflwyno cynllun premiwm amgen o Ebrill 2025 i ganiatáu ar gyfer yr ymgynghoriad angenrheidiol pe byddai Aelodau yn dymuno mynd ymlaen â hyn.

Siaradodd y Cynghorydd Helen Brown o blaid y cais a fyddai'n golygu y byddai eiddo gwag hirdymor yn cael eu defnyddio eto.

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y dylai'r diwygiad fod wedi ei gynnig fel rhan o'r ystyriaethau ar Dreth y Cyngor o fewn Cyllideb 2024/25 ac y gallai Aelodau fod yn dymuno ystyried yr awgrym a wnaed gan y Rheolwr Refeniw a Chaffael i ddilyn y broses gyfreithiol fel y ffordd ymlaen.

Wrth ymateb i sylwadau pellach, cymeradwyodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y cyngor a roddwyd gan swyddogion ac eglurodd y goblygiadau o newid sail Treth y Cyngor ar y cam hwn, gyda'r gyllideb eisoes wedi ei chymeradwyo.

Tynnodd y Cynghorydd Coggins Cogan ei ddiwygiad yn ôl yn dilyn hynny.

Wedi i'r Cynghorwyr Jones a Brown dynnu eu cynnig yn ôl, cynigiodd y Cynghorydd Johnson yr argymhellion yn yr adroddiad wedi ei seilio ar gynnydd blynyddol cyffredinol o 9.0% gan ychwanegu fod y Cabinet yn ysgogi adolygiad o gynllun premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi dros y 12 mis nesaf. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Chris Bithell.

Yn dilyn cynnig ac eilio, cafwyd pleidlais a derbyniwyd y cynnig.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Treth y Cyngor 2024/25 yn cael ei osod yn seiliedig ar gynnydd o 9.0% yn ffioedd y Cyngor Sir, fel nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad;

(b) Cymeradwyo parhau â'r polisi o beidio â rhoi gostyngiad yn lefel ffioedd Treth y Cyngor 2024/25 ar gyfer ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor. Yn ogystal â hyn, pan nad yw eithriadau'n berthnasol, codi cyfradd Premiwm Treth y Cyngor o 75% yn uwch na chyfradd safonol Treth y Cyngor ar anheddau gwag hirdymor dynodedig a 100% ar ail gartrefi o 1 Ebrill 2024; a

(c) Rhoi cymeradwyaeth i swyddogion dynodedig i fynd ymlaen â chamau cyfreithiol ac ymddangos ar ran y Cyngor yn Llys yr Ynadon am drethi heb eu talu; a

(d) Bod y Cabinet yn adolygu cynllun premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi dros y 12 mis nesaf.

*Ar y pwynt hwn, galwodd y Cadeirydd am seibiant byr cyn i'r eitemau a oedd yn weddill gael eu hystyried.*

## 83. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Strategaeth ddrafft Rheoli'r Trysorlys 2024/25 ar gyfer ei chymeradwyo.

Nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol wedi eu gwneud i'r Strategaeth ers y flwyddyn flaenorol ac nid oedd unrhyw faterion penodol wedi eu codi ar ôl ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Paul Johnson a Glyn Banks.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25.

**84. ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW - POLISI 2024/25**

Fe gafodd Aelodau adroddiad er mwyn cymeradwyo'r polisi blynyddol ar gyfer yr Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer ad-dalu dyledion yn ddarbodus.

Ar ôl pleidlais, cafodd yr argymhellion eu derbyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r canlynol ar gyfer Cronfa'r Cyngor:-

- Dewis 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrifo'r Isafswm Darpariaeth Refeniw ym mlwyddyn ariannol 2024/25 ar gyfer cydbwyso gwariant cyfalaf sy'n ddyledus ac sydd wedi'i ariannu gan fenthyca â chymorth wedi'i osod ar 31 Mawrth 2017. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull 'blwydd-dal' dros 49 mlynedd.

- Dewis 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio i gyfrifo'r Isafswm Darpariaeth Refeniw yn 2024/25 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sydd wedi'i ariannu gan fenthyca â chymorth o 1 Ebrill 2016. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull 'blwydd-dal' dros nifer briodol o flynyddoedd, yn ddibynnol ar y cyfnod o amser y mae'r gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion.

- Dewis 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio i gyfrifo'r Isafswm Darpariaeth Refeniw yn 2024/25 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sydd wedi'i ariannu gan fenthyca (darbodus) heb gymorth neu drefniadau credyd, gan gynnwys y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull 'blwydd-dâl' dros nifer briodol o flynyddoedd, yn ddibynnol ar y cyfnod o amser y mae'r gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion.

(b) Cymeradwyo'r canlynol ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai:-

- Dewis 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrifo Isafswm Darpariaeth Refeniw y Cyfrif Refeniw Tai yn 2024/25 ar gyfer cydbwyso gwariant cyfalaf sy'n ddyledus ac sydd wedi'i ariannu gan ddyled wedi'i osod ar 31 Mawrth 2021. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull 'blwydd-dal' dros 50 mlynedd.

- Dewis 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio i gyfrifo Isafswm Darpariaeth Refeniw y Cyfrif Refeniw Tai yn 2024/25 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sydd wedi'i ariannu gan ddyled o 1 Ebrill 2021. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull 'blwydd-dâl' dros nifer briodol o flynyddoedd, yn ddibynnol ar y cyfnod o amser y mae'r gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion.

(c) Cymeradwyo’r Isafswm Darpariaeth Refeniw ar fenthyciadau gan y Cyngor i Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru i adeiladu cartrefi fforddiadwy drwy’r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (sy’n cael ei ystyried yn wariant cyfalaf yn nhermau cyfrifo) fel a ganlyn:-

- Na wneir Isafswm Darpariaeth Refeniw yn ystod y cyfnod adeiladu (sy’n fyr) gan nad yw’r ased yn cael ei ddefnyddio ac nad oes unrhyw fudd o’i ddefnyddio.

- Unwaith y bydd yr asedau’n cael eu defnyddio, bydd ad-daliadau (benthyciadau) cyfalaf yn cael eu gwneud gan Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru. Bydd Isafswm Darpariaeth Refeniw’r Cyngor yn hafal i’r ad-daliadau a wneir gan Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru. Bydd yr ad-daliadau a wneir gan Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru yn cael eu hystyried, yn nhermau cyfrifo, fel derbyniadau cyfalaf, a dim ond i ariannu gwariant cyfalaf neu i ad-dalu dyled y gellir defnyddio’r rhain. Bydd yr ad-daliad cyfalaf / derbyniadau cyfalaf yn cael eu neilltuo i ad-dalu dyled, a dyma yw polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw’r Cyngor ar gyfer ad-dalu'r benthyciad.

## 85. DATGANIAD POLISI TÂL AR GYFER 2024/25

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol) y Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024/25 i alluogi cyhoeddi o fewn y terfynau amser statudol. Dyma’r deuddegfed datganiad blynyddol a gyhoeddwyd gan y Cyngor ac mae’n adlewyrchu trefniadau presennol a threfniadau’n ymwneud â thâl, gan ymgorffori diweddariadau fel nodir yn yr adroddiad. Cyn cyhoeddi, byddai cyflwyno’r Archwiliad Cyflog Cyfartal yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu mai dyma’r wythfed archwiliad cyflog.

Croesawodd y Cynghorwyr Chris Bithell a Dennis Hutchinson gamau gweithredu i leihau’r bwlch cyflog cyffredinol rhwng y rhywiau ymhellach lle roedd gwaith o’r un gwerth yn cael ei wneud.

Ar ôl pleidlais, cafodd yr argymhellion eu derbyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo’r Datganiad drafft ar Bolisi Tâl ar gyfer 2024/25; a

(b) Rhoi awdurdod dirprwyedig i’r Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol) i ddiweddaru Datganiad Polisi Tâl 2024/25 yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, polisi'r Llywodraeth neu drafodaethau cenedlaethol, fel ei fod yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol.

## 86. CWESTIYNAU

Dim.

**87. <u>CWESTIYNAU GAN YR AELODAU YNGLŶN Â CHOFNODION Y PWYLLGOR</u>**

Dim.

**88. <u>RHYBUDD O GYNNIG</u>**

Dim.

**89. <u>AELODAU O’R WASG YN BRESENNOL</u>**

Roedd dau aelod o’r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau’r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 4pm)

**………………………..**
**Y Cadeirydd**